

Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) Yng Nghymru 2014

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf

Gall y cyhoeddiad hwn gael i ei ddarparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd ychydig o oedi wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copi o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Swyddfeydd
Cenedlaethol AGGCC
Swyddfeydd y
Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126
Ebost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.aggcc.org.uk
Gwefan y Gydarolygiaeth: www.inspectionwales.com

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.hiw.org.uk

**ADOLYGIAD CENEDLAETHOL O'R
DEFNYDD O'R TREFNIADAU DIOGELU
RHAG COLLI RHYDDID YNG NGHYMRU
2014**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
A
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF**

Adolygiad Cenedlaethol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain. Cafodd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu cyflwyno'n ddiweddarach i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae rhywun o bosibl yn colli ei ryddid o fewn ystyr erthygl 5 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Gellir cymhwyso'r trefniadau diogelu i unigolion dros 18 oed sydd ag anhwylder meddwl ac nad ydynt yn meddu ar y gallu gwybyddol (galluedd meddyliol) i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) hwn. Cafodd y gwaith maes ei gwblhau fel rhan o arolygiad thematig cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolygiad yn fuan wedi i'r Goruchaf Lys roi dyfarniad yn achos P a Gorllewin Swydd Gaer sydd wedi cyfrannu at gynnydd mewn ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn cynnwys arolwg o bob BILI ac awdurdod lleol a 3 diwrnod o waith maes a gynhaliwyd mewn 7 awdurdod lleol ac yn yr holl BILlau rhwng mis Ebrill a mis Mai 2014. Bydd canfyddiadau o'r arolygiadau unigol yn golegu adroddiad trosolwg cenedlaethol gan AGGCC/AGIC a fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Roedd yr amcanion fel a ganlyn:

- Canfod a yw'r "Trefniadau Diogelu" yn yr adroddiad monitro cenedlaethol ar y cyd yn effeithiol o ran cadw pobl yn ddiogel ac nad yw'r person perthnasol/unigolion yn colli eu rhyddid yn ddiangen neu heb i drefniadau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith.
- Adolygu'r modd y mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei weithredu'n ymarferol a phenderfynu pa un a ddylid diwygio a diweddarau'r canllawiau.
- Ymchwilio i'r hyn sy'n cyfrannu at anghysonderau o ran defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar draws yr ALlau a'r BILlau yng Nghymru.
- Canfod a yw ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddu ar yr ymwybyddiaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu priod gyfrifoldebau i gymhwyso a rheoli Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol pan fo'n briodol.
- Deall profiad unigolion a gofalwyr.
- Adnabod ac adrodd ar arfer da.

Cyflwyniad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r mwyaf o ddau awdurdod lleol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2009, fe gytunodd y ddau fwrdd iechyd lleol ar y pryd (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) ac Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf a dau awdurdod lleol (CBS Merthyr Tudful a CBS Rhondda Cynon Taf) i gyfuno cyllidebau, i benodi un cydgysylltydd proffesiynol ac i sefydlu cronfa gyffredin o Aseswyr Budd Pennaf, gyda CBS Rhondda Cynon Taf yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol. Mae'r trefniant hwn wedi parhau ac mae'n dal i fod yn weithredol heddiw. Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd presennol ill dau'n gyrrff goruchwyliol ac yn awdurdodau rheoli at ddibenion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Yn y flwyddyn 2012-13, cyfradd y ceisiadau am awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel cyfran o'r boblogaeth yn CBS Rhondda Cynon Taf oedd yr ail uchaf o'r holl awdurdodau lleol ac yn BIP Cwm Taf yr uchaf o'r holl fyrddau iechyd.¹ Yn 2013-14 roedd 38 cais ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf a 40 ar gyfer BIP Cwm Taf².

Treuliodd arolygwyr dridiau yn yr ardal leol ym mis Mai 2014. Fe archwilion nhw sampl o ffeiliau achos a dogfennau perthnasol eraill, fe gwrddon nhw â phobl a oedd yn ddarostyngedig i'r Trefniadau Diogelu a phobl a oedd yn uniongyrchol gyfrifol am eu gofal, ac fe gynhalion nhw ystod o gyfweiliadau a chyfarfodydd gyda staff perthnasol o'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, rheolwyr cartrefi gofal, eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol, a chynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol. Cafodd yr arolygiad wybodaeth ddefnyddiol o adolygiad o'r model gwasanaeth a'r trefniadau gweithredol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gynhyrchwyd ym mis Medi 2013 gan Reolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion CBS Rhondda Cynon Taf.

1. Ansawdd Ceisiadau ac Asesu

Gyda rhai eithriadau, ymddengys fod ceisiadau am awdurdodiadau ar gyfer achosion o golli rhyddid yn briodol ac amserol. Roedd rheolwyr mewn lleoliadau gofal yn ymwybodol pryd yr oedd angen awdurdodiadau³ ac roeddent yn gyfarwydd â'r broses ar gyfer eu ceisio; roeddent yn adnabod cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, yr oeddent yn troi

¹ Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blyneddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. AGGCC ac AGIC, Chwefror 2014

² Ffigyrau a ddarparwyd ar gyfer AGGCC.

³ Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganllawiau ac arfer da fel yr oeddent yn cael eu deall yn gyffredinol yn ystod y cyfnod a adolygwyd. Mae dyfarniadau diweddar gan y Goruchaf Lys (P v Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a P a Q v Cyngor Sir Surrey) yn ailddiffinio'r hyn sy'n gyfystyr â cholli rhyddid.

ato'n aml i gael cyngor. Roedd hyn yn amlwg gan nad oedd llawer o ffurflenni SA1 a oedd wedi'u cyflwyno wastad yn ddigonol a bod angen i gydgyssylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid roi arweiniad. Yn yr holl achosion mewn ysbytai a welwyd gan arolygwyr roedd yr angen am gais dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei adnabod yn brydlon. Fodd bynnag, roedd yn cael ei gydnabod nad oedd nifer y ceisiadau yn y Bwrdd lechyd mwy na thebyg yn adlewyrchiad cywir o'r angen gwirioneddol am awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn dal yn wir bod cyfran fawr o staff y Bwrdd lechyd naill ai wedi cael ychydig iawn o hyfforddiant neu heb gael unrhyw hyfforddiant o gwbl a bod nifer o aelodau o staff heb gael hyfforddiant pellach ers cyflwyno'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2009.

Fodd bynnag, roedd achosion o golli rhyddid yn dal i ddigwydd neu barhau heb awdurdodiad, yn bennaf oherwydd oedi wrth brosesu ceisiadau. Roedd nifer o achosion lle'r roedd Awdurdodau Rheoli'n gorfod ymestyn awdurdodiadau brys oherwydd problemau gydag asesiadau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol.

Mae oedi o'r fath yn broblem fawr. Gall olygu nad yw person agored i niwed wedi'i amddiffyn gan asesiad ac awdurdodiad priodol a gall adael y corff goruchwylol yn agored i her gyfreithiol, gyda risg i'w enw da a'i sefyllfa ariannol o ganlyniad. Yn y chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Medi 2013, ni chydymffurfiwyd â'r amserlenni gofynnol mewn 63% o'r achosion, yn bennaf oherwydd anhawster dod o hyd i Aseswr Budd Pennaf⁴ a allai ymateb yn brydlon. Caiff y broblem ei gwaethygu gan y defnydd mynych o awdurdodiadau byr – byr iawn weithiau – sy'n gosod mwy o alw ar y gyfundrefn ac yn gadael llai o amser i gynllunio ar gyfer lleoli adnoddau. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae'r cyrff goruchwylol wedi trefnu bod Aseswyr Budd Pennaf ar gael yn rhwydd trwy gyflwyno rota; mae hyn wedi arwain at welliant ond nid yw wedi dileu'r broblem yn llwyr.

Mae ansawdd asesiadau'n uchel. Mae pob elfen o'r broses yn cael ei chwblhau fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer. Mae anghenion a risgiau unigolion yn cael eu dadansoddi'n gydwybodol yng nghyd-destun eu hamgylchedd arbennig. Mae gwybodaeth broffesiynol aseswyr yn cael ei hategu gan gyngor ac arweiniad cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a chan asesiad arbenigol (er enghraifft gan niwro-seiciatrydd) pan fo'n ofynnol. Defnyddir ffurflenni a llythyrau safonol yn unol â'r Cod Ymarfer.

Yn y rhan fwyaf o achosion a welwyd gan arolygwyr nid oedd angen am atgyfeiriad at y Llys Gwarchod. Mewn un achos, cafodd angen posibl am atgyfeiriad at y Llys Gwarchod ei anwybyddu; mewn un arall, cafodd atgyfeiriad ei wneud mewn modd priodol.

⁴ Gweler y Rhestr Termiau.

2. Ansawdd Canlyniadau

Roedd ansawdd canlyniadau'n dda ar y cyfan. Mae Aseswyr Budd Pennaf yn gwneud ymdrechion cydwybodol i geisio datrysiadau adeiladol a'r canlyniadau lleiaf cyfyngol. Mae'r ffordd y mae prosesau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu cyflwyno a'u harwain yn lleol – gyda hyfforddiant helaeth a dulliau eraill o godi ymwybyddiaeth – wedi ysgogi dull o'r fath yn fwy cyffredinol ymhlith awdurdodau rheoli a staff perthnasol arall. Roedd staff ar wardiau'n ceisio diwallu anghenion cleifion yn y ffyrdd lleiaf cyfyngol. Roedd trosglwyddiadau rhwng wardiau ysbytai a rhwng ysbytai a chartrefi gofal yn cael eu rheoli'n dda.

Trwy argymhell amodau ar gyfer awdurdodiadau, mae Aseswyr Budd Pennaf wedi annog aseswyr a rheolwyr gofal a chomisiynwyr gwasanaethau i ddod o hyd i leoliadau eraill neu i ddarparu adnoddau ychwanegol i ganiatáu llai o gyfyngu neu i wella ansawdd bywyd. Defnyddir awdurdodiadau am gyfnodau byr, nid mewn modd priodol bob amser, i greu mwy o frys. Mae rhai achosion yn codi cwestiynau ynghylch y ffin briodol rhwng priodolau Aseswyr Budd Pennaf a staff asesu a rheoli gofal. Nid yw amodau a bennir gan y corff goruchwyliol, a ddylai fod yn gyfrwymol, wastad yn cael eu dilyn. Roedd y cyfuniad o awdurdodiadau am gyfnodau byr ac amodau'n peidio â chael eu dilyn yn arbennig o broblemus mewn ysbytai gan ei bod yn ofynnol i rai unigolion gael ceisiadau dro ar ôl tro a oedd yn straen ar allu. Ond nid oes amheuaeth ynghylch y bwriad i ymlynu wrth bum egwyddor Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a gwelodd arolygwyr enghreifftiau nodedig o hyn mewn achosion unigol.

Arfer Da

Yn ystod y misoedd lawer yr oedd y claf yn yr ysbyty, mae cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod ei alluedd meddyliol wedi cael ei adolygu'n rheolaidd mewn perthynas â'i drefniadau gofal a chymorth hirdymor. Ceisiwyd a chaniatawyd nifer o awdurdodiadau safonol yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafodd y claf ei drosglwyddo i gartref gofal yn y pen draw gydag awdurdodiad safonol (ond newydd) yn cael ei roi yn y cyfleuster hwnnw. Cafodd yr awdurdodiad safonol ei godi ar yr adeg y dewisodd y claf adael y cartref gofal i fyw yn y gymuned. Cafodd y claf gymorth wedyn i sicrhau ei lety ei hun mewn ardal wahanol. Er nad oedd angen unrhyw apwyntiadau dilynol o ran gwasanaethau niwrolegol, roedd y claf yn dal i gael cymorth gan dîm rheoli gofal yr ardal ar ôl cael ei ryddhau.

Mae defnyddio awdurdodiadau am gyfnodau byr yn golygu mai ychydig o adolygiadau ffurfiol sy'n cael eu cwblhau. Yn ymarferol, mae llawer o achosion yn cael eu hadolygu'n anffurfiol trwy gyswllt aml rhwng cydgysylltydd

y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a staff o awdurdodau rheoli a thimau asesu a rheoli gofal.

3. Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau, Cleifion a Gofalwyr

Mae staff y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac Aseswyr Budd Pennaf yn gwneud ymdrechion i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a gofalwyr, fel y mae staff wardiau'n ei wneud – ceir tystiolaeth o hyn yng nghofnodion cleifion. Caiff gwybodaeth ysgrifenedig ei darparu'n rheolaidd, a chaiff ei hategu fel arfer (ac o anghenraid) gan esboniadau ar lafar. Mae asesiadau'n dangos ymgeisiau clir i ystyried dymuniadau a theimladau'r bobl dan sylw. Mae taflenni gwybodaeth wedi cael eu cynhyrchu gan bartneriaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sy'n cynnwys y Cyngorau a BIP Cwm Taf ar gyfer cleifion, perthnasau a gofalwyr. Roedd staff ysbytai y siaradon ni gyda hwy'n gwybod ble i ddod o hyd i'r rhain ar y fewnwyd.

Roedd cynrychiolwyr person perthnasol⁵ wedi'u penodi ym mhob achos a welwyd gan arolygwyr. Darperir Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol⁶ ar gyfer achosion lle nad oes cynrychiolydd person perthnasol ar gael neu i gefnogi'r cynrychiolydd person perthnasol. Dywedodd Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol y cyfwelodd arolygwyr â hwy fod eu rôl yn cael ei pharchu gan y cyrff goruchwylol.

Mewn achosion a welwyd gan arolygwyr, roedd tystiolaeth bod Aseswyr Budd Pennaf a staff awdurdodau rheoli wedi ymateb yn briodol i ddymuniadau a theimladau'r unigolion dan sylw, ac wedi gwneud ymdrechion i deilwra'r gwasanaeth a ddarperir i anghenion ac amgylchiadau, cefndir a diwylliant yr unigolyn.

4. Ansawdd y Gweithlu

Mae'r gweithlu sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cynnwys y cydgysylltydd a'r cymorth gweinyddol a'r Aseswyr Budd Pennaf, ynghyd â'u priod reolwyr, y meddygon sy'n gwneud asesiadau, a'r Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Hefyd, mae angen i staff mewn sefydliadau sy'n awdurdodau rheoli (ysbytai a chartrefi gofal) ac yn nhimau asesu a rheoli gofal gwasanaethau cymdeithasol fod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfreithiol ac egwyddorion arfer da.

Mae'r cydgysylltydd wedi dod yn arbenigwr ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac mae'n adnabyddus am hynny yn yr ardal leol a thu hwnt. Mae'n darparu ffynhonnell ganolog ar gyfer cyngor ac arweiniad i eraill. Daw Aseswyr Budd Pennaf o blith staff (gweithwyr cymdeithasol a nyrsys) y tri

⁵ Gweler y Rhestr Termiau.

⁶ Gweler y Rhestr Termiau.

chorff goruchwyliol ac maent yn gwneud y gwaith ochr yn ochr â'u dyletswyddau presennol; maent i gyd wedi'u hyfforddi⁷ ac yn cael cymorth a datblygiad proffesiynol parhaus, a drefnir gan mwyaf gan y cydgysylltydd. Mae'r meddygon yn ymarferwyr lleol sydd wedi'u cymeradwyo dan Adran 12(2) Deddf Iechyd Meddwl 1983. Caiff gwasanaethau Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol eu darparu gan gangen de-ddwyrain Cymru o IMCA Wales, sy'n rhan o Mental Health Matters (elusen gofrestrdig).

Mae cadw Aseswyr Budd Pennaf a sicrhau eu hargaeledd wedi profi'n broblem. Ar adeg yr adolygiad mewnol (Medi 2013), roedd 38 wedi cael eu hyfforddi ac roedd 5 wrthi'n cael hyfforddiant, ond dim ond 17 oedd yn ymarfer ar y pryd. Roedd llwyth gwaith eu swyddi parhaol wedi ei gwneud yn anodd iddynt ddod o hyd i'r amser i ymateb yn brydlon i geisiadau i wneud gwaith dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac ni fu system safonol i'w rhyddhau o'u dyletswyddau eraill neu i ail-amserlennu'r dyletswyddau hynny. Mae'r system rota a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n golygu bod dau aseswr ar alwad bob wythnos ar gyfer gwaith dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, wedi lleddfu'r broblem i'r aseswyr a'u rheolwyr llinell trwy wneud y galwadau gwaith yn haws i'w rhagweld, ond ymddengys fod problemau i'w cael o hyd gyda'r gallu ar y cyfan – o ran niferoedd a dosbarthiad (ymhlith y tri chorff goruchwyliol) ac o ran yr amser a neilltuir ar gyfer gwaith dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ar y cyfan, mae aseswyr meddygol ac Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi bod ar gael fel y bo angen. Telir ffi i'r meddygon am eu gwaith. Caiff yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol eu cyllido trwy gontract rhwng y bwrdd iechyd a Mental Health Matters.

Mae hyfforddiant ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal wedi cael ei ddarparu trwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol⁸, gan gael ei ategu gan gyngor ac arweiniad sydd ar gael yn rhwydd gan gydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Caiff hyfforddiant ar gyfer staff y gwasanaeth iechyd ei ddarparu fel rhan o hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed, sy'n orfodol, ond nid yw wedi cael ei ddarparu ar gyfer yr holl staff perthnasol eto. Amrywiol yw lefelau ymwybyddiaeth staff mewn cartrefi gofal ac ar wardiau ysbytai: mae ar ei huchaf yn y lleoliadau hynny lle mae'r trefniadau diogelu wedi bod yn cael eu defnyddio'n fwyaf aml. Datganodd staff y Bwrdd Iechyd nad yw sgiliau craidd y GIG (sy'n ofynnol ar gyfer y gweithlu) yn cynnwys sgiliau mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eto. Roedd teimlad bod hyn yn golygu bod gan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid broffil is ar draws y Bwrdd Iechyd nag a fyddai ganddynt pe baent yn cael eu cynnwys fel sgil craidd.

⁷ I'r safon sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau yn Lloegr, ond nid yng Nghymru.

⁸ Funded by the Welsh Government.

5. Arweinyddiaeth a llywodraethu

Cafodd y trefniadau partneriaeth ffurfiol rhwng y cyrff goruchwyliol (pedwar ohonynt ar y pryd, tri erbyn hyn) eu sefydlu erbyn i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2009. Roeddent wedi'u tanategu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a oedd yn sefydlu'r trefniadau ar y cyd ac yn dynodi CBS Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod arweiniol, i ddal y gyllideb, lletya swydd y cydgysylltydd a chymorth gweinyddol, i dderbyn a rheoli'r holl geisiadau am awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gan awdurdodau rheoli, ac i gomisiynu a choladu asesiadau ar ran y cyrff goruchwyliol, ar gyfer penderfyniad ynghylch awdurdodi gan y priod gorff goruchwyliol unigol. Roedd y trefniadau partneriaeth yn cael eu goruchwyllo gan grŵp llywio, a hwnnw'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r cyrff cyfansoddol. Mae'r cyrff cyfansoddol wedi sefydlu patrwm o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth mewn meysydd eraill o fewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy cyffredinol.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod angen rhoi sylw pellach i rai agweddau ar lywodraethu. Mae straeniau amlwg o fewn y system. Mae gweithrediad y gwasanaeth wedi dod yn rhy ddibynnol ar rôl cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Er ei fod wedi cryfhau o ran bod ag annibyniaeth briodol wrth gwblhau asesiadau a ffurfio barnau, nid yw wedi'i integreiddio'n ddigon da yn fertigol nac yn llorweddol i mewn i waith prif-ffrwd y cyrff goruchwyliol: yn arbennig mae trefniadau recriwtio, cymorth proffesiynol a'r modd y rheolir llwyth gwaith yr Aseswyr Budd Pennaf wedi bod yn dibynnu gormod ar ddiddordeb ac ewyllys da ymarferwyr unigol yn hytrach na chael eu rheoli'n ffurfiol; nid yw'n eglur ychwaith i ba raddau y mae gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi bod yn digwydd o fewn cyddestun dealltwriaeth fwy cynhwysfawr am y dull o ymdrin â galluedd meddyliol mewn lleoliadau iechyd ac yn nhimau asesu a rheoli gofal y gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen adolygu'r gyllideb ar gyfer y swyddogaeth gydgysylltu ganolog, ac felly hefyd y priod gyfraniadau mewn ffyrdd eraill (yn bennaf, darparu Aseswyr Budd Pennaf) mewn perthynas â'r galwadau roddir ar y system (ar ffurf ceisiadau am awdurdodiadau). Roedd y grŵp llywio wedi cwrdd bob chwe mis rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2014, ond ni fu unrhyw adroddiadau rheolaidd ar lefel byrddau na chabinetau/cynghorau. Gall fod angen gwneud newidiadau sylweddol o ganlyniad i ddyfarniadau diweddar y Goruchaf Lys hefyd.

Mae'r materion hyn wedi cael eu cydnabod gan y cyrff goruchwyliol ac mae rhai camau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith yn barod. Maent yn cael sylw yn yr adolygiad mewnol a gwblhawyd ym mis Medi 2013, a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer datrys problemau a gwneud gwelliannau. Mae trafodaethau wedi dechrau o fewn a rhwng y cyrff cyfansoddol am faterion sy'n ymwneud â chyllidebau ac adnoddau, am osod gwasanaethau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid dan nawddogaeth y Bwrdd Diogelu Oedolion a chael eglurder o ran y trefniadau adrodd. Cafodd papur ffurfiol ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ei nodi gan y bwrdd iechyd ym mis Mai

2014. I raddau helaeth, mae argymhellion yr adroddiad hwn yn tanlinellu'r materion hynny sydd eisoes dan ystyriaeth.

Mae gan y sefydliadau a adolygwyd ill dau gyfrifoldeb fel awdurdod rheoli yn ogystal ag fel corff goruchwyliol. Yn CBS Rhondda Cynon Taf adroddir ar y swyddogaethau fel corff goruchwyliol trwy Reolwr y Gwasanaeth Diogelu Oedolion wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar gyfer Gofal Cymunedol, ac ar gyfer y swyddogaethau fel awdurdod rheoli trwy Reolwr a Phennaeth Gwasanaeth y Gwasanaethau Preswyl wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Uniongyrchol, Materion Busnes a Thai. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar drefniadau a gweithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid trwy'r grŵp Diogelu Oedolion sy'n adrodd wrth y Grŵp Diogelu Gweithredol ac yna wrth y Grŵp Llywodraethu Clinigol, sy'n un o Bwyllgorau sefydlog y Bwrdd. Yn ei rôl fel Awdurdod rheoli, mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu gosod o fewn Diogelu Oedolion a Diogelwch Cleifion. Mae arbenigwr nyrsio clinigol yn rhoi cyngor a chymorth i staff wardiau mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Argymhellion

1. Dylai'r ddau gyngor bwrdeistref sirol a'r bwrdd iechyd lleol ("y partneriaid") gytuno ar drefniadau llywodraethu effeithiol yn y dyfodol ar gyfer gwasanaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'u rhoi ar waith.
2. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys:
 - mecanweithiau ar gyfer cytuno ar y trefniadau ar y cyd a'r adnoddau wedi'u neilltuo a'u monitro o flwyddyn i flwyddyn;
 - trefniadau eglur ar gyfer adrodd wrth fyrdau a chabinetau/cynghorau (ac wrth a thrwy'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn ôl yr hyn a benderfynir).
3. Dylai'r partneriaid, gan ymgynghori â'i gilydd, adolygu sut y maent yn darparu Aseswyr Budd Pennaf, gyda golwg ar reoli llwyth gwaith yn well o ran y dyletswyddau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill sydd gan yr aseswyr o bosibl.
4. Rhaid i'r partneriaid sicrhau bod asesiadau ac awdurdodiadau'n cael eu cwblhau o fewn amserlenni rhagnodedig.
5. Dylai Aseswyr Budd Pennaf, gyda chymorth Cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a rheolwr gwasanaeth diogelu oedolion yr awdurdod arweiniol, gan ymgynghori ag eraill fel y bo'n briodol, adolygu agweddau ar arferion gweithio, yn enwedig hydoedd awdurdodiadau a geisir, a argymhellir ac a ganiateir; a'r defnydd o adolygiadau o fewn cyfnod unrhyw awdurdodiad.
6. Dylai'r partneriaid ystyried y dull ehangach o ymdrin â galluedd meddyliol o fewn eu priod sefydliadau, a pha mor dda y mae arferion dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'u hintegreiddio â hyn ac yn helpu i'w lywio.

Dylai'r uchod i gyd gael eu cyflawni yng ngoleuni unrhyw newidiadau mewn disgwyliadau ac arferion o ganlyniad i ddyfarniadau diweddar y Goruchaf Lys.